# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion o'r cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2010

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Selwyn Williams - Cadeirydd<br>Y Cynghorydd G.O Jones - Is-Gadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr W.J.Chorlton; E.G.Davies; Lewis Davies; Jim Evans; C.Ll. Everett; D.R. Hughes; Fflur M.Hughes; K.P.Hughes; R.Ll.Hughes; T.Ll. Hughes; W.I.Hughes; W.T.Hughes; Eric Jones; H.Eifion Jones; O.Glyn Jones; Raymond Jones; R.Dylan Jones; R.Ll.Jones; T.H.Jones; A.Morris Jones; C.McGregor; Rhian Medi; Bryan Owen; J.V.Owen; R.L.Owen; Bob Parry OBE; G.O. Parry MBE; Eric Robers; G.W. Roberts OBE; J. Arwel Roberts; P.S. Rogers; E Schofield; H.W. Thomas; Ieuan Williams; J.P. Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr-gyfarwyddwr Interim;<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden);<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid);<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol Gweithredol (Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol);<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi);<br>Pennaeth Gwasanaeth(Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd);<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol;<br>Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro;<br>Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor:<br>Swyddog Cysylltiadau. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr B.Durkin, K.Evans, P.M.Fowlie. |

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd G.O. Jones.

1
**1DATGAN DIDDORDEB**

Datganodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden) ddiddordeb yn Eitem 6 o'r cofnodion ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth na phleidleisio ar y pwnc.

**2 DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, YR ARWEINYDD, AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH NEU BENNAETH Y GWASANAETHAU TÂL**

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gyfeirio at y ffaith bod Dr.Gareth Morris, Prif Gyfieithydd wedi ymddeol yn ddiweddar ar ôl 31 o flynyddoedd o wasanaeth i'r Cyngor hwn. Dywedodd hefyd y byddai Mr. Geraint Elis, Cydlynydd Strategol y Rhaglen Resymoli Ysgolion a chyn Bennaeth Gwasanaeth (Addysg) yn ymddeol ddiwedd y mis hwn. Rhoddodd ddiolch i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth gan ddymuno ymddeoliad hir a hapus iddynt.

Ar nodyn mwy trist, mynegodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad ar ran y Cyngor gyda Mr. Arthur Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol) a’i deulu ar farwolaeth ei fam. Cyfeiriodd hefyd at y tân brawychus yn Nhynygongl ar 30 Mehefin, 2010, pan gollodd mam ifanc a’i dau blentyn eu bywydau.

Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod neu Swyddog oedd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a’r Swyddogion mewn teyrnged ddistaw fel arwydd o’u parch.

---

Cymerodd Arweinydd y Cyngor y cyfle i wneud y datganiad a ganlyn i’r Cyngor yn ymwneud â chwynion yn erbyn y Cynghorwyr Durkin a Schofield:-

*“Members will be aware of the creation of a new Alliance to give political leadership committed to good governance within the Council. This Alliance is based on principle with the aim of unequivocally supporting the Council’ s recovery.*

*The Council has a long history of disputes between Members and petty infighting. Not only are these the problems which have got us here but they have continued.*

*We can all look backwards - indeed I in common with other members have done so but the reality now is that we must draw a line under the past and recognise that those who must be tackled are those whose conduct now is holding back recovery and that this is the main purpose of this Council together with creating opportunities with our services so that they continue to provide the best service for Anglesey residents.*

*Drawing this conclusion has been difficult for many of us. For me it was a uncomfortable message as most of the present problems were emanating from my own Group. It puts principle before friendship, it puts recovery before political groups. This Council can only move forward if it marginalises those who obstruct recovery and those who support them.*

*This is not an attempt to gag others from raising legitimate and serious concerns from the past. Indeed in Cynghorydd Durkins’ case he has been told if he has any compelling evidence then he should take it the police.*

*Many members have called for people to be named so that we are not all tarred with the same brush. One of the most important terms of the Alliance document was that the Alliance Group Leaders agreed to reporting Councillors Durkin and Schofield to the Ombudsman for breaches of the Members’ Code of Conduct.*

*I can confirm that external solicitors with expertise in local government work have already been instructed to prepare the complaints.*

*The work of drafting one of the complaints has already begun. Work on the other will follow in due course.*

*These are significant pieces of work as they involve a large number of incidents going back over a number of years with much paperwork and they involve a number of other individuals, being both elected members and officers.*

*This means that the work will take a while longer in order to ensure the correctness and completeness of the complaints. Members will be apprised of developments as the work progresses.*

*The Alliance Group Leaders will support the complaints. Across the chamber we may not all agree on the way forward but what I hope we can agree on is the need to bring matters to a head so we can all move forward. I will seek to involve the Leaders of the other Groups on the Council, namely Cllrs Bryan Owen and Gareth Winston Roberts, in this work and at the appropriate time I very much hope that they too will be able to support the complaints.*

*I know that the overwhelming majority of the Members here today share my commitment to recovery and the removal of the WAG intervention. Regardless of where they may now sit in the Council Chamber I hope we can all work together to achieve this goal and get on with what we should be here for and that is the face up to the many challenges this Island faces".*

Roedd y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim hefyd yn dymuno gwneud y sylwadau a ganlyn:-

*"First of all, in terms of the Alliance agreement, I am quite happy to meet with members individually or collectively to explain fully the background to the formation of that document and the advice I gave at the time. I am aware that there is quite a lot of rumour and speculation about issues leading up to that and I think it is unhelpful generally for there to be rumour and speculation and therefore I am perfectly happy to meet with members individually or collectively.*

*It is however, quite clear, that the ongoing problems that this Council is experiencing in terms of the behaviour and conduct of some members and the apparent support that they were receiving from other members was making recovery extremely difficult. I have been extremely forthright in my comments to Group Leaders and to individual groups about the need to tackle those conducts and behaviours. Not to sweep criminal acts of the past under the carpet, nobody would expect that, but to stop the petty tit for tat that is rooted in the history of this Council and try and move forward in an united fashion.*

*The dangers of bold and decisive action in this Council to try and provide that strong leadership, to force the issues out into the open has a danger and a down side. And that danger and downside is that the very act of bold and determined leadership to identify and eliminate people who cause problems in the Council can create a new set of scores to be settled, a new set of enemies. If that is the case here, recovery will not succeed. I would ask all members to think very, very long and very, very hard about that.*

*I've worked long enough with all of you to know that you are all very dedicated, committed Councillors seeking to do the best for your constituencies and wards and I very much hope that over the next few months you can prove that you can come together in a united way to move this Council forward. But I have given you that cautionary note about the problems that I see moving this Council forward. We cannot allow recent events, and I urge you not to allow recent events to create a new set of problems to fall out over.*

*The second item I want to refer to is the Minister's letter dated 13th June, sent to all members of the Council. It would of course be a matter for the Minister if and when he intervenes and the nature of that intervention. However, I wish to be absolutely clear with members as I am always very clear with members I hope, that it is my strong view that should the recovery of the Council falter, or the current alliance fail, then intervention should follow.*

*It is also the opinion of the Recovery Board that if the new coalition collapses, any move to some new reconfiguration would detract from the work of the Council and that the Board themselves would be prepared to act as Interim Commissioners until new Commissioners could be appointed.*

*Now I don't want members to take that as a threat. I make it as an observation and a comment. I hope that in particular, that some of those members who have said 'bring it on' will reflect very, very carefully upon those comments.*

*The situation has moved, this can no longer be a Council run simply on numbers and if you get over 20 you run the Council. This has to be a Council run based on principle. Having the numbers can no longer be a recipe for survival. Again I make those comments quite directly and quite bluntly, because I think it is important that all members understand that.*

*It is absolutely essential, that members read the Minister's letter very, very carefully and dwell and reflect upon it. And I regret that some of the issues that have brought this recent turn of events to a head, is because members did not read the earlier Minister's letter, very, very carefully.*

*My third announcement related to Ian Bottrell. Members will be aware that Mr.Bottrell has already done some work for the Council, well received workshops. I am commissioning Mr.Bottrell through the W.L.G.A. to carry out some further work, particularly with Group Leaders but across the Council in order to develop some of the political protocols which one would expect to see in a mature political environment.*

*This work is imminent and will be carried out over the next few weeks and probably through into September. I have asked him to ensure that he engages as widely as possible with members across the whole Council. I hope members will cooperate with him and engage in this work. I do think that building an understanding of some of these political protocols can help in terms of moving this Council forward in a way that recovery is sustainable".*

-------------------------------------

Diolchodd y Cynghorydd Aled Morris Jones i'r Cadeirydd am hyrwyddo Diwrnod y Lluoedd Arfog. Ni fyddai'r digwyddiad wedi digwydd heb ei arweiniad ef ar y diwrnod. Gofynnodd i'r Cadeirydd sicrhau bod y digwyddiad hwn yn cael ei gynnal eto yn y dyfodol ac o bosibl gyda newid rhwng y lleoliad yma ym Môn a lleoliad arall ar hyd arfordir Gogledd Cymru.

## 3 CYNLLUN GWELLA CORFFORAETHOL

(a) Adroddwyd - Bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin, 2010 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor Sir ei fod yn cymeradwyo'r Blaenoriaethau Gwella ar gyfer 2010/11 fel y maent wedi'u nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

*Gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) gynnwys cyfeiriad at fabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer cartrefi gweigion ym Mharagraff 3.1 y Blaenoriaethau Gwella.*

*Rhoi awdurdod i'r Aelod Portffolio ar gyfer Llywodraeth Gorfforaethol oruchwylio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Gwella cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Sir."*

(b) Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Mehefin, 2010. *(Copi eisoes wedi ei rannu i'r aelodau gyda'r papurau uchod).*

(c) Cyflwynwyd - Copi o'r Cynllun Gwella Corfforaethol Drafft.

Gofynnodd y Cynghorydd Aled Morris Jones am i frawddeg gyntaf y paragraff olaf ar dudalen 5 o'r adroddiad gael ei newid i ddarllen *'Er bod datblygu economaidd yn wasanaeth dewisol, y mae, er hynny, yn flaenoriaeth strategol o bwysigrwydd mawr i'r Cyngor.'*

Gwnaeth sylw hefyd, o dan 'arbedion Cadw ty da ac effeithlonrwydd' yn Nhudalen 10 o'r adroddiad, y dylid gofyn i swyddogion gynnwys rhai esiamplau o gynigion i leihau gwastraff a chostau.

Dywedodd yr Arweinydd wrth ateb ei fod yn barod i dderbyn y newid cyntaf ond roedd yr ail newid yn gynamserol yn ei farn ef oherwydd bod angen i'r Cyngor yn gyntaf ystyried unrhyw oblygiadau cyflogaeth i staff.

**PENDERFYNWYD derbyn y Blaenoriaethau Gwella am 2010/11 fel yr oeddynt wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Corfforaethol Drafft ac y dylai unrhyw newidiadau terfynol i gynnwys y cynllun cyffredinol gael eu cytuno mewn ymgynghoriad gyda'r Deilydd Portffolio Llywodraethu Corfforaethol.**

## 4 DARPARU'R GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO AR GYFER YNYS MÔN A GWYNEDD AR Y CYD

a) Dweud bod y Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin, 2010 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- "*Bod Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (JPPU) yn cael ei greu i ddarparu'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio i Awdurdodau Cynllunio Lleol Ynys Mon a Gwynedd;*
- *Bod Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn cael ei greu i fod a throsolwg o waith y JPPU;*
- *Bod y JPPU yn dechrau ei waith ar un Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) i Awdurdodau Cynllunio Lleol Gwynedd ac Ynys Mon;*
- *Bod Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael ei ffurfio i roi mewnbwn i lunio un CDLl i'r ddau awdurdod;*
- *Bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio fel corff gwneud penderfyniadau trawsffiniol ffurfiol;*
- *Adrannau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd mewn ymgynghoriad a'r Adrannau Cyllid, Cyfreithiol, Personel ac Eiddo i weithredu'r uchod."*

(b) Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth (Amgylchedd Gwasanaethau Technegol) a fel y cyflwynwyd hwnnw hwnnw Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin, 2010. *(Copi eisoes wedi ei rannu ymhlith yr holl aelodau gyda'r papurau uchod).*

Roedd rhai o'r aelodau oedd yn bresennol am fynegi consyrn na fyddai yna ond un CDLl i Ynys Môn a Gwynedd ac y dylid ystyried cael cynllun ar wahân ar gyfer Ynys Môn o safbwynt economaidd. Ni fyddai anghenion Ynys Môn a Gwynedd bob amser yr un fath.

Wrth ateb, dywedodd y deilydd portffolio, y Cynghorydd W.J. Chorlton ei fod am sicrhau'r aelodau y byddai'r Cyngor yn cael cyfle i drafod ei gynnwys cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud, a thrwy hynny sicrhau nad oedd yr Awdurdod hwn yn cael ei adael i lawr mewn unrhyw ffordd. Byddai adroddiadau diweddaru'n cael eu rhoi i'r Cyngor a'i Bwyllgorau ar y cynnydd fyddai'n cael ei wneud.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Gwaith ar 15 Mehefin, 2010 yn y cyswllt hwn.**

## 5 CYFARFODYDD GYDA'R NOS

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol /Swyddog Monitro.

Adroddwyd - Bod y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 11 Mai, 2010, wedi cymeradwyo penderfyniad wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar 7 Mai *'bod y Cyngor llawn yn derbyn adroddiad erbyn mis Medi ynglyn â'r ymarferoldeb o alw cyfarfodydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau y tu allan i oriau swyddfa.'*

Roedd Paragraff 2 o'r adroddiad yn cyfeirio at y rhestr o faterion oedd angen eu hystyried cyn dod i benderfyniad, ynghyd â'r sefyllfa bresennol mewn Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru yng nghyswllt galw cyfarfodydd gyda'r nos.

Roedd Atodiad 'A' o'r adroddiad yn rhoi rhestr o'r Pwyllgorau am y cyfnod Mai 2009 - Mai 2010 lle byddai'r Aelodau yn bresennol.

Roedd barn Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol i'w gweld yn Atodiad 'B' o'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD na fydd unrhyw newid i'r trefniadau presennol yn ystod oes y Cyngor cyfredol.**

## 6 PENODI SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL A THACLUSO PENODIADAU Â THACLUSO PENODIADAU MEWN PERTHYNAS Â MATERION ETHOLIADOL

Adroddwyd - bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 22 Mehefin, 2010 wedi penderfynu argymell i'r Cyngor Sir fel a ganlyn:-

- *"Penodi Rheolwr-gyfarwyddwr dros dro y Cyngor I fod yn swyddog cofrestru etholiadol y Cyngor, yn swyddog canlyniadau I etholiadau llywodraeth leol, yn swyddog canlyniadau'r etholaeth yng nghyswllt etholidau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a hefyd yn swyddog cyfrif y Cyngor I ddibenion refferenda lleol;*

- *Bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cael ei newid yn unol â'r ddarpariaeth yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn, fel bod pwy bynnag a benodir yn Rheolwr-gyfarwyddwr i'r Cyngor yn y dyfodol yn awtomatig hefyd yn cael ei benodi I swyddogaethau isod y Cyngor:-*

- *Swyddog cofrestru etholiadol (Swyddog Cofrestru)*

- *Swyddog canlyniadau i'r holl etholiadau hynny y mae'n rhaid i'r Cyngor benodi swyddog canlyniadau iddynt, a*
- *Swyddog cyfrif i'r holl refferenda y mae'n rhaid*

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol.

*(Copi eisoes wedi ei rannu ymhlith yr holl aelodau gyda'r papurau uchod).*

**PENDERFYNWYD - cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith ar 22 Mehefin, 2010 yn y cyswllt hwnt.**

*7* **PRESENOLDEB AELODAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO MEWN DIGWYDDIADAU / SEMINARAU HYFFORDDI**

Cyflwynwyd - Adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro.

Adroddwyd - Yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2008, roedd tua hanner yr aelodau oedd yn eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn newydd i'r Awdurdod ac nid oeddynt wedi derbyn unrhyw hyfforddiant blaenorol ar faterion cynllunio.

Hyd yma bu aelodaeth y Pwyllgor yn weddol sefydlog gydag ond ychydig newidiadau dros y 2 flynedd ddiwethaf ac yn unol â gofynion y Cyfansoddiad, roedd yr holl Aelodau newydd wedi cael Hyfforddiant Anwytho cyn eistedd ar y Pwyllgor a gwneud penderfyniadau.  Roedd 17 o sesiynau hyfforddi / seminarau wedi'u cynnal gyda'r aelodau ers Mai, 2008 a 4 ohonynt i bwrpasau anwytho.

Roedd yn rhaid cael cymaint o hyfforddiant i'r Aelodau er mwyn adlewyrchu, yn gyntaf, cymaint o Aelodau newydd oedd wedi dod i'r Pwyllgor Cynllunio, ac yn ail, er mwyn pwysleisio pwysigrwydd y broses o wneud penderfyniadau cynllunio ac yn drydydd er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd gadarn ac mewn dull agored a thryloyw.

Roedd y cofnodion o bresenoldeb (Atodiad 1 i'r adroddiad) yn dangos bod rhai Aelodau wedi bod i bentwr mawr o ddigwyddiadau hyfforddi / seminarau, ond nad oedd 2 o'r Aelodau ond wedi mynychu'r nifer leiaf oedd yn angenrheidiol.  Fodd bynnag, gan na wnaethant ond cael eu cyfethol ar y Pwyllgor yn dilyn hyfforddiant anwytho ar 7 Hydref 2009 a 22 Chwefror 2010 byddai ganddynt ddigon o gyfle i sicrhau eu bod yn mynychu'r nifer gofynnol o ddigwyddiadau o fewn y cyfnod o 2 flynedd.

**PENDERFYNWYD**

- **Gofyn i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion nodi cynnwys yr adroddiad hwn.**

- **Bod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn sylweddoli pa mor bwysig yw mynychu digwyddiadau hyfforddiant fel y byddant yn cael eu cynnig.  Oni bai ei bod yn anymarferol, fe ddylent gymryd rhan yn yr holl ddigwyddiadau hyfforddi ac nid y nifer leiaf o seminarau fel sy'n ofynnol yn y Cyfansoddiad - Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio.** [Nodyn:  Mae digwyddiadau hyfforddi / seminarau yn holl bwysig i Aelodau'r

Pwyllgor Cynllunio fel eu bod yn cadw ar y blaen i'r newidiadau sy'n digwydd o hyd o fewn 'cynlunio' a hefyd er mwyn gweithredu ar y pryderon a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Llywodraethu Corfforaethol (Gorffennaf 2009).]

- **Bydd monitro presenoldeb yr Aelodau yn parhau, ac fe adroddir ar hynny i'r Cyngor Llawn.**

**8 CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Adroddwyd - Yn dilyn y newidiadau diweddar yn aelodaeth y Grwp Annibynnol Gwreiddiol a sefydlu'r grwp gwleidyddol Llais i Fôn, mae'r Cyngor yn awr yn gorfod adolygu ei drefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau'r Cyngor.

Ynghlwm wrth yr adroddiad roedd tabl yn dangos y cydbwysedd gwleidyddol ar Bwyllgorau'r Cyngor gan gydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Roedd y tabl yn dangos chwe grwp gwleidyddol o 13, 8, 5, 4, 3 a 3 Aelod a 4 aelod Digyswllt.

Yn ystod trafodaethau diweddar yn y Tîm Rheoli Corfforaethol barnwyd ei bod yn bwysig cael cysondeb yn y Panel Taliadau a Graddfeydd a'r ffordd hawsaf o sicrhau hyn oedd trwy gynyddu'r aelodaeth o 5 i 6. Rhag bod unrhyw gamddealltwriaeth ynglyn â'r rheol 6 mis o dan 4.1.17.1 rhaid i 10 aelod nodi cefnogaeth i gynnig i newid y penderfyniad wnaed gan y Cyngor Sir ar 11 Mai 2010, ac mai 5 sedd oedd i fod ar y Panel Taliadau a Graddfeydd. Os sicrheir hynny, gellir rhoi'r cynnig i gynyddu nifer y seddau o 5 i 6 gerbron y Cyngor llawn.

Felly, onid yw'r gwaith clandro yn rhoddi i ni rifau cyflawn i'r holl seddi a hefyd i'r seddi ar Bwyllgorau unigol, nid oes modd osgoi ffracsiynau, ac o'r herwydd, ni fydd modd cydymffurfio yn llwyr nag yn gyflawn.

Dim ond i'w aelodau ei hun yn unig y gall grwp gwleidyddol ar y Cyngor ddyrannu'r seddi a roddir i'r grwp hwnnw dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ac ni all ddyrannu i Gynghorydd y tu allan i'r grwp gwleidyddol hwnnw.

Holodd y Cynghorydd G. W. Roberts, OBE, sut yr oedd 0.7 yn y tabl cydbwysedd gwleidyddol wedi'i rowndio i fyny i 2 ac 0.45 i 1 sedd ar y Panel Tâl a Graddfeydd?

Dygodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyllid) sylw'r aelodau at Bara 2 o'r adroddiad ac at y prif egwyddorion yn y Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989, pan yn adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar bwyllgorau Cyngor. Trwy gonfensiwn, roedd y Cyngor hwn yn rhoi'r seddi oedd ar ôl i'r aelodau digyswllt. Yn dilyn gwneud symiau, roedd yn digwydd bod 2 sedd ar ôl i aelodau digyswllt ar y Pwyllgor AAA. Nid oedd hyn yn gwestiwn o rowndio 0.7 i 2 ond yn hytrach y gwahaniaeth rhwng 5 a 7.

Cynigiodd y Cynghorydd G. W. Roberts, OBE y dylid cael trafodaeth bellach ar y mater hwn a dywedodd yr Arweinydd y byddai'n rhaid edrych ymhellach ar yr holl fater.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r Cyngor yn awr symud ymlaen i benderfynu ar ddyraniad y seddi i aelodau digyswllt.

Roedd cyngor cyfreithiol roddwyd ar y diwrnod yn dweud bod gan y Cyngor ddau opsiwn, naill ai bod y Cyngor yn apwyntio aelodau digyswllt ar Bwyllgorau neu bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Arweinydd i benderfynu, fel oedd yn digwydd cyn hyn.

Cynigiwyd ac eiliwyd dilyn yr ail opsiwn y cyfeirir ato uchod.

**PENDERFYNWYD**

- **Cytuno bod y Cyngor yn ailystyried aelodaeth y Panel Tâl a Graddfeydd o fewn 6 mis i'w ystyried yn flaenorol ganddo.**

- **I newid nifer yr aelodau ar y Panel Tâl a Graddfeydd o 5 i 6.**

- **I nodi'r trefniadau newydd ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol a'r nifer o seddi a roddir i bob grwp a'r aelodau digyswllt dan ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**

- **Cytuno ar niferoedd cyflawn y seddi a ddyrennir i'r Aelodau Digyswllt a bod y dyraniad blaenorol wnaed gan Arweinyddion y Grwp yn unol â'r dirprwyo wnaed gan y Cyngor ar 11 Mai , 2010 yn sefyll (os na cheir unrhyw newidiadau - ac nid oes unrhyw).**

- **Gofyn i Arweinyddion y Grwpiau ddarparu rhestr o enwau cynrychiolwyr eu grwp ar bob Pwyllgor i'r Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor erbyn 10 y bore ddydd Mawrth 6 Gorffenanf 2010.**

- **Bod y dyraniad presennol o seddi digyswllt yn sefyll a bod y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim yn drafftio protocol yn gosod allan y weithdrefn ar gyfer dyrannu seddi i Aelodau Digyswllt yn y dyfodol.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.30p.m.**

**Y CYNGHORYDD SELWYN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**